

Canllawiau ar gyfer Gwasanaethau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf – COVID-19

At: Cyfarwyddwyr Addysg, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant, Penaethiaid Gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, Penaethiaid Gwasanaethau Dechrau'n Deg ac Arweinwyr y Grant Plant a Chymunedau.

Mae'r coronafeirws newydd (COVID-19) yn cyflwyno heriau heb eu tebyg o'r blaen i'n teuluoedd a'n gwasanaethau. Diolch ichi am eich gwaith caled a'ch proffesiynoldeb yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Ddydd Llun 19 Hydref, [cyhoeddodd](#) y Prif Weinidog y byddai cyfnod atal byr o bythefnos yng Nghymru er mwyn rheoli lledaeniad y feirws. Roedd y cyfnod atal byr rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd.

Ddydd Llun 2 Tachwedd, cyhoeddodd y Prif Weinidog gyfres o fesurau i'w rhoi yn eu lle ar gyfer y cyfnod yn syth ar ôl yr 17 diwrnod o gyfnod atal byr yng Nghymru. Gellir gweld y cyhoeddiad [yma](#).

Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau ar ddarparu gwasanaethau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn ystod y cyfnod ar ôl i'r cyfnod atal byr ddod i ben, ac yn disodli'r fersiynau blaenorol o'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ystod y pandemig hyd nes y clywir yn wahanol. Rydym am ichi eu rhannu ymhlith eich timau ac yn eich sicrhau ein bod yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn cynnig canllawiau i'ch cefnogi wrth ddarparu gwasanaethau i blant a theuluoedd ar hyn o bryd ac wrth i'r sefyllfa ddatblygu ymhellach.

Rydym yn cydnabod y bydd teuluoedd o dan bwysau emosiynol, ariannol a seicolegol ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn. Er diogelwch a llesiant eich staff a'r plant a'r teuluoedd yr ydych yn eu cefnogi, mae hefyd yn hanfodol bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n gyson â'r cyngor gwyddonol arbenigol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Gallai'r cyngor gwyddonol hwnnw, a'r canllawiau yn sgil hynny, newid.

Mae'r Gweithgor ar Weithredu ym Myd Covid wedi ystyried manteision gwasanaethau wyneb yn wyneb a ddarperir mewn grwpiau, yr adroddwyd eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n arbennig gan deuluoedd a oedd yn gweld y cyfle i gyfarfod ag eraill mewn sefyllfa debyg o fudd i'w hiechyd meddwl a'u lles.

Mae cymorth grŵp yn cynnig man cymdeithasol ddiogel i deuluoedd a allai fod wedi'u hynysu yn ystod y pandemig, ac yn gyfle i annog ymddygiad cadarnhaol o ran mesurau diogelu, fel cadw pellter cymdeithasol. Os na all grwpiau ailddechrau cyfarfod o fewn amgylchedd diogel, mae perygl i deuluoedd fod yn fwy tebygol o geisio cyfarfod y tu allan i'r manau diogel hyn i gymdeithasu a cheisio cymorth. Mae'r canllawiau hyn yn adlewyrchu manteision darparu gwasanaethau cymorth wyneb yn wyneb o fewn y paramedrau a bennir gan y rheoliadau.

Bydd angen ichi sicrhau hefyd fod gwasanaethau'r rhaglenni'n cydymffurfio â [Health Protection \(Coronavirus Restrictions\) \(No. 4\) \(Wales\) Regulations 2020](#). Gweler hefyd y [Cwestiynau Cyffredin](#) a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r rheoliadau newydd.

Dylid anfon pob ymholiad ynglŷn â'r canllawiau hyn at y blwch negeseuon e-bost perthnasol:

familiesfirst@llyw.cymru

FlyingStart2@llyw.cymru

Dylid anfon pob ymholiad ynglŷn â chyllid at dîm y Grant Plant a Chymunedau:

AriannuHyblyg@llyw.cymru

Y gynulleidfa darged

Dylai'r canllawiau hyn gael eu defnyddio gan y rhai hynny sy'n ymwneud â chynllunio, comisiynu a chyflwyno'r gwasanaethau a ariennir drwy naill ai rhaglen Dechrau'n Deg neu raglen Teuluoedd yn Gyntaf, gan gynnwys Cydgysylltwyr Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, arweinwyr gwasanaethau awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi ar draws yr holl sectorau perthnasol.

Nodau'r canllawiau yw:

- Annog ffordd hyblyg ac ymarferol o gynnal gwasanaethau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn ystod pandemig y coronafeirws newydd.
- Sicrhau bod gwasanaethau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn hyblyg ac yn berthnasol i anghenion penodol y boblogaeth a'r gymuned lleol.
- Galluogi rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, hyd y gellir, i barhau i chwarae rhan wrth gefnogi plant a'u teuluoedd yn ystod cyfnod y pandemig.
- Galluogi gwasanaethau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf i ymdopi'n briodol â'r pwysau ychwanegol y gallai'r coronafeirws newydd ei roi ar ddarparu gwasanaethau.
- Hybu gweithio mewn partneriaeth ar draws yr holl wasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd.

Mae'r newidiadau hyn yn fesur dros dro mewn ymateb i'r amgylchiadau digyffelyb hyn yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu ymhellach wrth i benderfyniadau yn ymwneud â'r coronafeirws gael eu gwneud.

Yn ystod cyfnod yr amhariad ar wasanaethau, nodwch y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd hynny i ystyriaeth wrth adolygu perfformiad yn erbyn y lefelau perfformiad y cytunwyd arnynt mewn perthynas â llwythi gwaith a Dull Rhaglen Ofal. Mae'r gwasanaethau hynny'n parhau i fod yn hanfodol i deuluoedd ar draws Cymru. Felly, rydym yn disgwyl i bawb wneud eu gorau glas i gyrraedd cynifer o deuluoedd ag sy'n bosibl mewn modd priodol yn ystod y cyfnod hwn.

Egwyddorion cyffredinol:

Dylai'r rhai sy'n darparu gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan Dechrau'n Deg neu Teuluoedd yn Gyntaf gadw'r egwyddorion canlynol mewn cof wrth ystyried pa gymorth i'w ddarparu i unrhyw blentyn/person ifanc/teulu sy'n agored i niwed neu'n dod yn agored i niwed.

- rhaid i wasanaethau gydweithio i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn ddiogel ac yn cael eu gweld, eu clywed, eu meithrin a'u datblygu;
- dylai'r penderfyniad ystyried yr effaith ar iechyd a datblygiad emosiynol, meddyliol a chorfforol y plentyn neu'r person ifanc yn y tymor byr, tymor canolig ac yn hirdymor (gallai peidio â gweithredu yn y tymor byr gael effaith wirioneddol yn yr hirdymor);
- dylai'r penderfyniad ystyried sut y gellid lliniaru unrhyw risgiau, gan gynnwys y risg o orfod uwchgyfeirio i wasanaethau statudol, drwy'r cymorth mwyaf priodol i'r plentyn neu'r person ifanc a'i deulu;
- dylai'r penderfyniad ystyried barn y plentyn neu'r person ifanc a'i rieni/gofalwyr, fel y gellir deall a diwallu eu hanghenion drwy'r cymorth mwyaf priodol (gan gynnwys cymorth wyneb yn wyneb); dylai rhieni a gofalwyr gael gwybodaeth glir am bob penderfyniad;
- dylai plant a phobl ifanc, lle bo angen, gael eu blaenoriaethu'n briodol ar gyfer cymorth;
- dylai'r risgiau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd gael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd ar sail amlasiantaethol

Canllawiau Dechrau'n Deg

Rydym yn cydnabod y bydd teuluoedd yn dioddef straen ychwanegol ac yn wynebu heriau unigryw yn ystod y cyfnod anodd hwn. Rydym yn cydnabod efallai na fydd yn bosibl ddarparu holl wasanaethau Dechrau'n Deg drwy'r trefniadau arferol yng ngoleuni'r cyfyngiadau sydd yn eu lle yn ystod y cyfnod ar ôl y cyfnod atal byr. Nod y canllawiau hyn yw cynnig gwybodaeth glir am fframwaith gwasanaethau Dechrau'n Deg y gellir eu darparu i gefnogi plant a theuluoedd mewn angen, yn unol â'r cyngor gwyddonol presennol mewn perthynas â chyfyngu lledaeniad y feirws a chyfyngiadau sydd yn eu lle ar gyfer y gymdeithas ehangach.

Caiff y canllawiau eu cyfleu yn ôl thema o dan bedair elfen graidd Dechrau'n Deg:

Gwasanaethau Ychwanegol Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg

Ym mis Awst, cafodd y Byrddau Iechyd lythyr gan Ddirprwy Brif Swyddog Iechyd Cymru ynghylch darparu'r rhaglen Plant Iach Cymru. Roedd y llythyr yn nodi'n glir bod Llywodraeth Cymru bellach yn disgwyl i'r ystod lawn o gysylltiadau'r rhaglen hon gael eu gweithredu heb eithriadau, gyda'r hyblygrwydd i barhau i gynnig rhith-gysylltiadau lle bo angen yn dilyn asesiad o amgylchiadau'r teulu a barn broffesiynol Ymwelydd Iechyd.

Yn unol â gwasanaethau generig, dylai'r ystod lawn o gysylltiadau ar gyfer rhaglen Plant Iach Cymru a Dechrau'n Deg gael eu gweithredu bellach gan Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg a hynny'n rhithwyr lle bo angen.

Gwasanaethau Rhianta Dechrau'n Deg

O ystyried y cyngor gwyddonol presennol sy'n ymwneud â chadw pellter cymdeithasol, bydd angen i Awdurdodau Lleol barhau i addasu'r ffordd y mae gwasanaethau rhianta Dechrau'n Deg yn cael eu darparu. Mae'r rheoliadau newydd a gyhoeddwyd ar gyfer y cyfnod ar ôl y cyfnod atal byr yn caniatáu i wasanaethau cyhoeddus ailgychwyn, ac yn codi rhai o'r cyfyngiadau sydd wedi amharu ar y ddarpariaeth gan gynnwys gwasanaethau wyneb yn wyneb ac mewn grwpiau, ar yr amod bod asesiadau risg gorfodol yn cael eu cyflawni. Yn unol â hyn, gall Awdurdodau Lleol ailgychwyn neu ddechrau darparu cymorth mewn grwpiau a chymorth wyneb yn wyneb lle credir bod hyn yn fanteisiol ac yn briodol. Fodd bynnag, er mwyn bodloni'r galw parhaol a newidiol am gymorth, disgwylir i Awdurdodau Lleol barhau i edrych ar ffyrdd arloesol eraill o gyrraedd plant a rhieni. Lle bernir nad yw darparu gwasanaethau grŵp neu wyneb yn wyneb yn briodol, dylid ystyried opsiynau cyfunol – er enghraifft cysylltiad digidol neu ddefnyddio manau awyr agored lle bo hynny'n bosibl. Pan fo angen darpariaeth amgen, dylai Awdurdodau Lleol flaenoriaethu rhaglenni rhianta ar-lein sy'n agored i bawb a darpariaethau wedi'u targedu, y gellir eu darparu'n rhithwyr ac sy'n fwy addas ar lefel un-i-un. Dylai Awdurdodau Lleol hefyd ystyried y canllawiau canlynol pan fyddant yn cynllunio gwasanaethau yn ystod y cyfnod yr amhariad hwn:

1. Dylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfleu negeseuon a sicrhau bod cymorth ar gael yn eu cymunedau. Gallai hynny fod ar ffurf rhith grwpiau ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol, fel Facebook neu WhatsApp.
2. Dylai cymorth a chyngor gael eu darparu'n ddigidol drwy gynghorion a ffeithluniau. Mae ystod o adnoddau ar gael drwy wefan [Maqu Plant. Rhowch amser iddo](#). Llywodraeth Cymru, a bwriedir cyhoeddi mwy yn ystod yr wythnosau nesaf.
3. Lle nad yw'n briodol darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb, dylai Awdurdodau Lleol ddarparu cymorth un-i-un neu mewn grŵp yn rhithwyr, gan wneud y defnydd gorau o dechnoleg gwybodaeth a thechnolegau digidol wrth ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae angen i Awdurdodau Lleol fod yn

fodlon bod unrhyw ddewis arall yn lle gwasanaethau wyneb yn wyneb yn diwallu'r anghenion gofal a chymorth a nodir mewn unrhyw gynllun gofal a chymorth.

4. Lle asesir bod cymorth wyneb yn wyneb yn briodol, dilynwch yr holl ganllawiau ar amgylcheddau diogel o ran Covid, gan gynnwys y canllawiau isod ar Fesurau Diogelu a'r canllawiau ar gyfer gweithleoedd a safleoedd sydd ar gael [yma](#).

Nid yw'r rhestr uchod yn holl gynhwysfawr, gan ein bod yn cydnabod y gallai fod gan Awdurdodau Lleol ddulliau a syniadau eraill y maent yn eu hystyried.

Gofal Plant Dechrau'n Deg

Er mwyn helpu i hwyluso mwy o bresenoldeb mewn lleoliadau gofal plant, gan gynnwys gofal plant Dechrau'n Deg, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau [Mesurau Diogelu mewn Lleoliadau Gofal Plant: cadw gofal plant yn ddiogel](#) sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i ddarparwyr gofal plant ynghylch sut i baratoi lleoliadau ar gyfer presenoldeb uwch gan barhau i ddiogelu plant a staff. Mae'r ddogfen yn gosod pwyslais ar asesiadau risg unigol a phrosesau effeithiol ar gyfer rheoli hylendid er mwyn sicrhau arferion diogel mewn lleoliadau gofal plant. Yn ogystal, mae canllawiau pellach mewn perthynas â chadw plant yn ddiogel mewn gofal plant wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar i weld [yma](#).

Yn unol â'r sector gofal plant ehangach, mae gofyn i holl ddarparwyr gwasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg lynu at y canllawiau ar Fesurau Diogelu wrth gynllunio a darparu gwasanaethau Dechrau'n Deg, hyd nes y clywir yn wahanol.

Disgwyliadau o ran y gwasanaethau

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 19 Hydref na fyddai mesurau'r cyfnod atal byr yn effeithio ar wasanaethau plant, er gwaetha'r cyfyngiadau a fyddai yn eu lle ar gyfer y gymdeithas ehangach. Cyhoeddwyd hyn er mwyn sicrhau y byddai plant yn gallu parhau i fanteisio ar brofiadau datblygiadol drwy fynychu lleoliadau gofal plant proffesiynol ac i leihau effaith y pandemig ar blant ifanc a'u teuluoedd.

Yn unol â'r cyhoeddiad ar gyfer y sector gofal plant ehangach yng Nghymru, arhosodd lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg ar agor yn ystod y cyfnod atal cyn belled ag oedd hynny'n ymarferol yn yr amgylchiadau ac yn ddiogel i'r plant a'r staff. Nid yw'r sefyllfa honno wedi newid yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog ar 2 Tachwedd.

Ar 5 Awst 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fesurau Diogelu diwygiedig ar gyfer lleoliadau gofal plant, sydd, ynghyd â nifer o ddiwygiadau eraill, yn cydnabod mor anymarferol yw hi i blant bach iawn gadw pellter cymdeithasol, ac yn cael gwared ar y cyfyngiad i gadw grwpiau i 8 plentyn mewn lleoliadau gofal plant. Mae'r Mesurau Diogel hyn yn parhau i fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod ar ôl y cyfnod atal byr.

Mae diogelwch plant a staff yn dal i fod o'r pwys mwyaf, a disgwylir i bob lleoliad gynnal asesiadau risg unigol i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y ddarpariaeth yn ddiogel ac yn parhau i gydymffurfio â'r canllawiau.

Sylwch mai ein dyhead o hyd yw cefnogi cynifer o blant â phosib o fewn canllawiau [Mesurau Diogelu mewn Lleoliadau Gofal Plant: cadw gofal plant yn ddiogel](#).

Os nad oes modd i blant fod yn bresennol am ran o'r wythnos yn sgil mesurau lleol i reoli niferoedd, dylid cefnogi eu datblygiad drwy ffyrdd eraill, hynny yw adnoddau a gweithgareddau i'w cyflawni gartref.

Mae'r ymateb cenedlaethol i'r holl amharu a achoswyd gan y coronafeirws wedi dangos i ni bod modd dod o hyd i ffyrdd arloesol o barhau i gadw mewn cysylltiad â phlant y tu allan i leoliadau gofal plant ffurfiol, ac rydym yn ddiolchgar iawn am holl ymdrechion y timau Dechrau'n Deg hyd yma. Gan ystyried effaith debygol y mesurau parhaus i gyfyngu ar symudiadau ar rai o deuluoedd Dechrau'n Deg, a'r amharu ar wasanaethau hyd yma, mae'n hanfodol ymdrechu gymaint â phosibl i gysylltu â theuluoedd Dechrau'n Deg.

Cyllid

Mae'r rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn cael eu hariannu drwy'r Grant Plant a Chymunedau, ynghyd â 5 rhaglen arall o ymyrraeth gynnar, atal a chefnogi.

Fe wnaeth y Gweinidogion ganiatáu i bob rhaglen o fewn y Grant Plant a Chymunedau wyro wrth fanylion eu cynlluniau cyflawni er mwyn ymateb i effaith y pandemig rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin, a oedd yn cynnwys yr ymrwymiad i ariannu staff y grant a'r gwasanaethau Dechrau'n Deg a ariennir gan y grant. Estynnodd Gweinidogion Cymru yr hyblygrwydd hwn tan 30 Medi 2020.

O 1 Hydref 2020, mae awdurdodau lleol wedi diwygio'r Cynlluniau Cyflawni'r Grant Plant a Chymunedau i adlewyrchu sut y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddiogel yng ngoleuni'r pandemig ar gyfer gweddill blwyddyn ariannol 2020-21. Yn y cynlluniau diweddaraf hyn, amlinellodd yr awdurdodau lleol sut y byddai gwasanaethau'n cael eu darparu yn ystod sefyllfaoedd o gyfyngiadau lleol neu chenedlaethol, gan gynnwys parhau i ariannu lleoliadau Dechrau'n Deg p'un a ydynt yn gallu agor ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd cadw'r staff a'r gwasanaethau er mwyn gallu darparu gwasanaethau'n ddiogel yn unol â'r canllawiau ar Fesurau Diogelu.

Cyfeiriwch at ganllawiau'r Grant Plant a Chymunedau (Hydref 2020) i gael rhagor o wybodaeth a gellir anfon unrhyw ymholiadau ynghylch cyllid i'r blwch post ariannu hyblyg. Sicrhewch fod holl arweinwyr lleol y Grant Plant a Chymunedau yn cael gwybod am unrhyw gyfathrebu â Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid rhaglenni.



CCG Guidance
October 2020 Final ve

Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a Dechrau'n Deg

Yng ngoleuni'r cyngor gwyddonol presennol sy'n ymwneud â chadw pellter cymdeithasol, bydd angen i Awdurdodau Lleol barhau i addasu'r ffordd y caiff gwasanaethau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg eu darparu. Mae'r rheoliadau newydd a gyhoeddwyd ar gyfer y cyfnod ar ôl y cyfnod atal byr yn caniatáu i wasanaethau cyhoeddus ailgychwyn, ac yn codi rhai o'r cyfyngiadau sydd wedi amharu ar ddarpariaeth gan gynnwys gwasanaethau wyneb yn wyneb, yn amodol ar gwblhau asesiadau risg gorfodol. Yn unol â hynny, gall Awdurdodau Lleol ailddechrau neu ddechrau darparu cymorth mewn grwpiau neu wyneb yn wyneb lle bernir bod hyn yn fuddiol i ddatblygiad. Fodd bynnag, er mwyn ateb y galw parhaus a newidiol am gymorth, bydd disgwyl i Awdurdodau Lleol barhau i edrych am ffyrdd amgen ac arloesol o gefnogi plant a rhieni. Lle bernir nad yw darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb neu grŵp yn briodol, dylai opsiynau darparu hyblyg barhau.

Dylai Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd bennu pa waith sy'n flaenoriaeth ac yn waith brys, a'i drefnu'n haenau gan nodi'r risgiau. Dylai gweithwyr proffesiynol ddilyn y Canllawiau a'r cymorth diweddaraf gan Lywodraeth Cymru, lechyd Cyhoeddus Cymru a'u cyrff proffesiynol. Bydd yr holl ganllawiau ychwanegol yn cael eu rhoi ar dudalennau cyngor Llywodraeth Cymru ar COVID-19.¹

Yn benodol, mae canllawiau adsefydlu:

<https://llyw.cymru/fframwaith-adsefydlu-gwasanaethau-iechyd-chymdeithasol-2020-i-2021-0>

Mae cyngor ychwanegol hefyd ar Hyb Cyngor HCPC:

<https://www.hcpc-uk.org/covid-19/>.

Canllawiau ar gyfer gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf

Mae'r canllawiau hyn yn egluro pa wasanaethau a ddylai gael eu darparu a'r modd y dylent gael eu darparu ar lefel leol.

Rydym yn cydnabod ei bod yn afresymol i barhau i weithredu rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf fel ag y mae ar hyn o bryd o dan yr amgylchiadau presennol. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau newydd a gyhoeddwyd ar gyfer y cyfnod ar ôl y cyfnod atal byr yn caniatáu ailddechrau gwasanaethau cyhoeddus ac yn codi rhai o'r cyfyngiadau sydd wedi amharu ar y ddarpariaeth gan gynnwys gwasanaethau a grwpiau wyneb yn wyneb, yn amodol ar gwblhau asesiadau risg gorfodol. Yn unol â hynny, gall Awdurdodau Lleol ailddechrau neu ddechrau darparu cymorth grŵp ac wyneb yn wyneb os bernir bod hyn yn fuddiol ac yn briodol.

¹ <https://llyw.cymru/topic/980/latest>

Hyd nes y rhoddir gwybod yn wahanol, dylai'r Awdurdodau Lleol weithredu yn unol â'r egwyddorion canlynol:

1. Darparu gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf mewn modd sy'n gyson â'r cyfyngiadau sydd yn eu lle ar gyfer y cyfnod ar ôl y cyfnod atal byr.²
2. Bydd angen i wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf ddefnyddio'u barn broffesiynol i nodi pa wasanaethau sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth i deuluoedd a sut y gallant gael eu darparu yn eu hardaloedd lleol yn ystod y cyfnod hwn.
3. Mae hynny'n debygol o olygu y bydd yr Awdurdodau Lleol yn cynnig nifer mwy o wasanaethau dros y ffôn, drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein. Fodd bynnag, mae angen i Awdurdodau Lleol fod yn fodlon bod unrhyw ddewis arall yn lle gwasanaethau wyneb yn wyneb yn diwallu'r anghenion gofal a chymorth a nodir mewn unrhyw gynllun gofal a chymorth neu gynllun Tim o Amgylch y Teulu (TAT).
4. Lle asesir bod cymorth wyneb yn wyneb yn briodol, dilynwch yr holl ganllawiau ar amgylcheddau diogel o ran Covid-19, gan gynnwys y canllawiau isod ar Fesurau Diogelu a'r canllawiau ar gyfer gweithleoedd a safleoedd sydd ar gael [yma](#).
5. Bydd angen barn broffesiynol gweithwyr gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf hefyd i wybod sut i gefnogi grwpiau mewn perygl ac sy'n agored i niwed (fel y rheini sydd ag anghenion diogelu a/neu blant a phobl anabl a/neu eu teuluoedd). Bydd angen i weithwyr gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf drafod y cymorth sydd ar gael i'r teuluoedd hynny ag uwch-reolwyr ac â gweithwyr gwasanaethau eraill yn ardaloedd eu hawdurdodau lleol.
6. Bydd angen i wasanaethau Dechrau'n Deg barhau i weithio gydag ysgolion i sicrhau fod ganddynt brosesau atgyfeirio a blaenoriaethu cadarn yn eu lle i sicrhau bod teuluoedd yn cael cynnig cymorth priodol cyn gynted a phosib.

Er y bydd y gweithgarwch yn erbyn eich cynllun cyflenwi y cytunwyd arno yn newid, dylid casglu'r data ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir o hyd.

Monitro ac ariannu Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg

Er y bydd y gweithgarwch yn erbyn cynllun cyflenwi'r Grant Plant a Chymunedau y cytunwyd arno yn newid, dylid casglu'r data ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir o hyd.

Ym mlwyddyn ariannol 2020-21, bydd angen Adroddiadau Cynnydd a Hawliadau Ariannol ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau erbyn 23 Hydref 2020, 22 Ionawr

² <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2020/1219/contents/made>

2021 a 30 Ebrill 2021. Ni fydd angen cyflwyno data monitro ar gyfer y ddwy raglen tan fis Ebrill 2021.